# <u>Rhaglen Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>,

## Cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes- nos Iau, 6 o Dachwedd, 2025 yn Ystafell Myrddin Neuadd Chwilog a drwy 'Zoom', am 6:30 y.h. o flaen y prif gyfarfod.

*<u>Ar y Pwyllgor</u>*: Y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Aled Davies, Anwen Jones, Dewi Prys Thomas a'r Clerc.

*<u>Ymddiheuriadau</u>* – Sian Parry, Tegid Jones

Ar y rhaglen.

1. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Busnes gynhaliwyd ar 7fed o Dachwedd, 2024.

2. **<u>Cyllideb 2025/26</u>** a throsolwg o wariant y Cyngor hyd yma. Roedd y Clerc wedi rhannu taflenni excel drwy ebost o flaen y cyfarfod, er mwyn ei cymharu gyda'r gyllideb a wnaed.

- Y gyllideb arian /gwariant hyd at 31.03.2026 yn cael ei ddiweddaru'n fisol I'r holl gynghorwyr.
- Y gyllideb arian / gwariant (amcangyfrif) am 2026-2027.

Roedd yr adroddiadau yn dangos amlinelliad o'r gwariant sydd i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef diwedd Mawrth 2026.

Ar 31.10.2025 roedd y symiau isod yn y 2 cyfrif:-

| **Cyfrifon** | **£** | |
|---|---:|---|
| Cyfrif cyfredol | 19,487.03 | Cynnwys Lightsource |
| Cyfrif cadw | 4,810.69 | |
| **Cyfanswm** | **24,297.72** | |

3. **<u>Cynlluniau gwariant o rwan hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol yma.</u>**
Mae ambell beth angen ei talu, ond mae'r symiau i gyd yn dangos ar y rhestr 'rhagolwg'.
Fe ganiatawyd swm o £4,799.00 gan Gronfa Gwynedd Ni gan Alys Jones, Swyddog Prosiect Adfywio Trefi, Cyngor Gwynedd, i Cyngor Cymuned Llanystumdwy, a bydd angen cwblhau y gwaith erbyn 31.12.2025.
Bydd y Cyngor Cymuned yn talu'r Treth ar Werth ar hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog a'r 4 arwydd pontydd, a bydd y Clerc yn ei hawlio yn ol wedyn. Y pwrpas oedd i ddatblygu cynlluniau sydd yn gwella y gymuned, drwy edrychiad, cyfleusterau a bwrlwm trefi a phentrefi Gwynedd. Derbyniwyd y grant i gefnogi y 3 cynllun isod:-

- 4 arwydd llechi o enwau pontydd o fewn y gymuned, Pont yr Inn (Pont y Pandy), Pont Gaerddu Bach, Pont y Felin a Phont Afonwen (Ffridd Lwyd).
- Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog – Eifion Wyn a Myrddin Fardd.

- Cyngerdd ym Mhencaenewydd 'Ar Noson fel Hon' 01.11.2025.

Fe ddaw ad-daliad am arian llwybrau hefyd gan Cyngor Gwynedd, tua £417.80. Bydd angen i'r Clerc anfon llythyr at yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Ionawr 2026, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned.

4. **<u>Prosiectau posibl, neu wedi ymrwymo iddynt am y flwyddyn Ebrill 2026 - 2027:-</u>**

- Cyngor Gwynedd-toiledau Llanystumdwy - £2000.00 y flwyddyn
- Tir y Cyngor Rhydybenllig – dim wedi ei wneud yno ers tro, ond efallai ei adael oherwydd yr adroddiad bioamrywiaeth.
- Wifi y 3 lleoliad bob blwyddyn.
- Cadw safle bedd Lloyd George yn daclus – £300.00 bob blwyddyn.
- Cae chwarae Llangybi – cynnal a chadw.
- Lloches bws Chwilog angen ei drwsio-wedi cael pris o £698.00 a TAW £139.40=£837.40, ond cytuno i'w adael am rwan oherwydd y gost.

5. **<u>Arian Cyfraniad Budd-Cymunedol</u>**, fferm solar Gelli Gron, Llangybi.
Derbyniwyd £5,276.67 ar 05.12.2024, a oedd yn £138.50 yn fwy na'r flwyddyn cynt, a bydd swm tebyg yn cael ei dderbyn eleni.

Bydd angen talu am y Wifi i Neuaddau Llanystumdwy, Chwilog a Phencaenewydd. Llynedd roedd y ffigwr yma'n £939.72, ond heb dderbyn cais gan Neuadd Llanystumdwy.

6**<u>. Dewis Praesept 2026–2027</u>** - fe godwyd y ffigwr i **<u>£20,500.00</u>**, eleni.
Cytunwyd i godi'r praesept i £21,000.00 o'r 01.04.2026 ymlaen, oherwydd fod chwyddiant a chostau yn codi'n flynyddol). Bydd angen gwneud **<u>penderfyniad terfynol yn ein cyfarfod llawn ar 04.12.2025.</u>**

7. **<u>Penderfynu faint o arian y dylid ei glustnodi ar gyfer y ceisiau ariannol Chwefror 2026.</u>**
Llynedd talwyd £7,439.72 o'r cyfrif cyfredol (roedd hyn yn cynnwys cyfraniadau Wifi). Mae'n anodd dweud faint o geisiadau a ddaw eleni, ond bydd angen gwneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod llawn fis Ionawr 2026, o bosib ffigwr o £8,000.

(Uchafswm gwariant yw *£11.10 x 1521* o boblogaeth o fewn cymuned Llanystumdwy = *£16,883.10*)